AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 234 Chwefror – Mawrth 2022

Synod Cymru

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



Yn ôl yr ystadegau, rydym yn fwy tebygol ym Mhrydain o weld Pasg gwyn na Nadolig gwyn, er gwaethaf ein disgwyliadau. (Dwi'n beio cân Bing Crosby, a bod yn onest!) Erbyn y rhifyn yma o'r *Gwyliedydd*, bydd y Nadolig wedi dechrau mynd yn ddim ond atgof, ond yn ystod misoedd y rhifyn hwn bydd tymor y Grawys yn dechrau. Bydd eglwys Iesu Grist yn paratoi i ddathlu'r Pasg unwaith eto – efo eira neu hebddo!

Mae'r traddodiad Cristnogol yn ein dysgu ni am chwe ymarfer i'w dilyn yn y Grawys er mwyn paratoi ein hunain ar gyfer dathlu atgyfodiad Iesu: hunan-ymchwiliad, gweddïo, ymprydio, rhoi arian, darllen y Beibl a chymodi. Dwi'n hoffi ychwanegu un arall, sef darllen llyfr ychwanegol ar thema addas i fy helpu i dyfu fel Cristion. Os ydych chi am wneud rhywbeth tebyg, ga'i awgrymu llyfr? Byddai'n dda gen i petaswn i wedi cadw'r llyfr tan y Grawys, yn hytrach na bod wedi ei ddarllen yn barod! Ta waeth, mae'n golygu fy mod yn gallu ei gymeradwyo i ddarllenwyr y *Gwyliedydd* – os nad ydych chithau wedi ei ddarllen eisoes. Os ydych, buaswn i wir yn hoffi clywed beth rydych chi'n ei feddwl ohono.

Teitl y llyfr yw *A Future that's Bigger than the Past: Catalysing Kingdom Communities* (Canterbury Press, 2019) a'r awdur yw Samuel Wells, ficer Eglwys St-Martin-in-the Fields, Llundain. Seiliwyd y llyfr ar gyfres o ddarlithoedd am fywyd yr eglwys leol, a roddwyd ganddo yng Nghaeredin yn ystod y flwyddyn cyn y pandemig. Mae'n rhaid cadw'r cyd-destun hwn mewn cof wrth ddarllen – mae llawer wedi newid ers 2019 – a bod yn barod hefyd i 'gyfieithu' nifer o'r pethau mae'n eu dweud fel y byddant yn siarad wrth gyd-destun llawer o'n capeli a'n profiad Cristnogol yng Nghymru. Yn sicr mae llawer sy'n berthnasol iawn ac yn werth ei ystyried, nid lleiaf er mwyn gweld a ydych yn cytuno neu'n anghytuno: wedi'r cwbl, fel mae Sam yn dweud, sôn y mae yn y bôn am *agwedd meddwl* fel Cristnogion yn hytrach na rhestr 'I'w Wneud' sydd am arwain at adnewyddu ein bywyd gyda'n gilydd. Hefyd, mae gan y llyfr chwe phennod, felly byddai'n bosib darllen un bob wythnos yn ystod y Grawys ac wedyn treulio amser yn myfyrio ar y thema, neu hyd yn oed yn ei thrafod â rhywun arall sy'n darllen y llyfr. Cyfleus iawn!

Rwy'n meddwl y byddech chi'n cael eich taro yn syth (os nad eich llorio), fel minnau, gan eiriau agoriadol y llyfr:

> The church is getting smaller; and the church is becoming narrower. Those who regularly attend worship are fewer; and the church's reputation and energy are becoming associated with initiatives that are introverted and often lack the full breadth of the gospel. The two questions this situation evokes are, 'How do you feel about this?' and 'What are you doing about it?'

Mae'n ddiflewyn ar dafod, ac yn heriol, fel y gwelwch! Wedyn, mae'r awdur yn mynd ymlaen i awgrymu fod Duw yn cynnig i ni ffyrdd i ymateb i'w gwestiynau ar gyfer adnewyddiad ein cynulleidfaoedd lleol sy'n fasnachol, tosturiol a diwylliannol ("commercial, compassionate and cultural"). Hyd yn oed os na ddarllenwch y llyfr neu os nad ydych yn cytuno â'r hyn y mae'n ei ddweud, mae'r cwestiynau yn rhai gwerth eu gofyn i chi eich hun a gweddïo amdanynt. Tybed allwn ni roi ymatebion gonest iddynt, neu fyddai hi'n well gennym eu hanwybyddu'n llwyr a chrwydro ymlaen yn fodlon ein byd yn ein capeli a'n cymunedau fel y maent? Gobeithio y cewch eich taro a'ch ysbrydoli mwy gan beth mae Sam Wells yn ei ddweud wedyn am haelioni Duw, sy'n rhoi i ni fywyd yn ei gyflawnder ac yn ei ddigonedd. Mae gennym ni berthynas â Duw yng Nghrist ac mae gennym ni ein gilydd. Rydym yn gyfoethog ac mae gennym yr adnoddau i weithredu! Dyna sylfaen y llyfr i gyd, ac mae'r agwedd yn berthnasol i gapel bach yng nghefn gwlad Cymru lawn cymaint ag i eglwys 'swanc' yn Llundain fel Saint-Martin-in-the-Fields. Gobeithio y cewch gyfle i ddarllen y llyfr ac y cewch eich cryfhau ar eich taith gyda Iesu trwy'r Grawys tuag at fywyd newydd y Pasg.

Rydym ni i gyd yn teithio ymlaen, er gwaethaf rhwystredigaethau a heriau Covid-19, ac rwy'n parhau i ofyn am eich gweddïau dros ddyfodol Synod a Chylchdaith Cymru. Mae'r cynlluniau ar gyfer un Synod dwyieithog newydd ar gyfer Cymru gyfan ar y gweill o hyd, ynghyd â'r posibilrwydd o ddyfodol adnewyddol ar gyfer Cylchdaith Cymru fel rhan o'r Synod. Er gwaethaf popeth, fel mae teitl llyfr Sam Wells yn dweud, gyda Duw mae gennym ni ddyfodol sy'n fwy na'r gorffennol, diolch iddo.



**Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd**

Bydd Jennie'n ymweld â'r mannau isod yn y ddau fis nesaf, yn unol wrth gwrs â rheoliadau Covid ar yr adeg dan sylw. Boed bendith Duw ar ei holl waith ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

| Chwefror | | Mawrth | |
|---|---|---|---|
| 6 | Glannau Maelor | 6 | Dyffryn Clwyd |
| 13 | Gwyliau | 13 | Gwynedd a Môn |
| 20 | Morgannwg | 20 | Ceredigion a Meirionnydd |
| 27 | Llanrhaeadr | 27 | Morgannwg |

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU**
**YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 234**
**CHWEFROR – MAWRTH 2022**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn trwy'r post £7.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
5 MAWRTH 2022

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa


**Diolch yn fawr iawn** am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*. Derbyniwyd rhai rhoddion hefyd wedi i'r rhifyn hwn fynd i'r wasg ac fe gofnodir ein diolch amdanynt yn y rhifyn nesaf.

| | |
|---|---|
| Merle Davies, Abergwaun | £25-00 |
| R. Tegid Jones, Y Rhos, Wrecsam | £25-00 |
| Iorwerth ac Aluna, Norwy a Llanfairpwll | |
| er cof am Mam a Dad, Y Parchg a Mrs John Alun Roberts | £25-00 |
| Eifion Lloyd Jones, Prion, Dinbych | |
| Tanysgrifiad a rhodd er cof am ei dad Mr G. Edgar Jones, Porthmadog | £32-00 |
| Y Parchg Dilys Jones, Amwythig | |
| er cof am ei phriod y Parchg Alec Jones | £20-00 |
| Dafydd Roberts, Llanfairpwll | £40-00 |
| L.M. Thomas, Llanrhaeadr Y M. | £10-00 |
| Y Chwaer Gwenllian R Knighton, Y Fenni | £20-00 |
| June Cooper, Llanfairpwll | £10-00 |
| Dienw | £10-00 |
| Bethel, Deganwy | £10-00 |
| Gwen Griffith, Deiniolen | £10-00 |
| Mary Thomas, Rhoshirwaun | £7-00 |
| Dienw | £50-00 |
| Ebeneser, Trefor, Môn | £25-00 |
| Y Chwaer Eluned Williams, Dolgellau | £10-00 |
| Dienw | £100-00 |
| Dienw | £50-00 |
| Carmel, Llangynog | £10-00 |
| Eglwys Gydenwadol Seion Llangollen | £20-00 |
| Margaret Griffith, Y Drenewydd | £20-00 |
| Trygan Roberts, Llandrillo yn Rhos | £7-00 |
| I.G. Jones, Llanfairpwll | £10-00 |
| Seion, Glyndyfrdwy | £50-00 |
| Alwena Edwards, Llanfairtalhaiarn | £20-00 |
| Gareth Tilsley, Bangor | £14-00 |
| Y Parchg Ifor Jones, Hen Golwyn | £10-00 |
| Helen Wyn Williams, Llanllechid | £10-00 |
| Capel Annibynnol Bethel, Arfon | £25-00 |
| Emyr a Gweryl Evans, Coedpoeth | |
| er cof am ein rhieni annwyl | £20-00 |
| **CYFANSWM** | £695-00 |

# Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

| | |
|---|---|
| Bathafarn, Rhuthun (yr eglwys) | £50.00 |
| Bathafarn, Rhuthun (unigolion) | £40.00 |
| Margaret (am Caneunon Ffydd o Emaus, Y Fflint) | £20.00 |
| Teulu Watson, Yr Wyddgrug | |
| (am nad oedd casgliad anrhegion) | £50.00 |
| Pendref, Dinbych – casgliad Nadolig | £225.00 |
| Er cof annwyl am: | |
| Parchg. Gwylfa H. a Mrs Doris Morgan ac Alwyn | |
| gan Eirian a Wyn; | £25.00 |
| Parchg. Arthur Ll. a Mrs Cavel Williams | |
| gan Gareth a Hywel; | £25.00 |
| Parchg. Clifford a Mrs Lilian Roberts | |
| gan Geraint a'r teulu; | £30.00 |
| Parchg. William O Thomas | |
| gan Ann, Nia a Bethan | £25.00 |

Anfonwyd cyfanswm o £490.00 yn enw Synod Cymru.

Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan
Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
01978 756717 cwrteden@gmail.com

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Gan fod Prydain yn rhan o'r Ymerodraeth Rufeinig pan ddaeth Cristnogaeth yn grefydd swyddogol, Lladin fu iaith yr Eglwys yma am oddeutu mil o flynyddoedd. Dros y cyfnod o'r ail ganrif ymlaen fe gafwyd llawysgrifau sanctaidd ond tua diwedd y bedwaredd ganrif comisiynwyd Jerôm i gywiro'r rhain a llunio Beibl Lladin safonol. Y Fwlgat, sef gwaith Jerôm, oedd Beibl Cymru am fil o flynyddoedd hyd at y Diwygiad Protestannaidd.

Ychydig iawn a geir yn y Gymraeg yn ystod y cyfnod hir hwn. Gwelir rhan o Genesis yn 'Y Bibyl ynghymraec' [1400] ac fe geir Salmau ac adnodau yn 'Gwassanaeth Meir' [1400]. Y llawysgrif sy'n cynnwys y mwyaf o Gymraeg yw Llyfr Ancr Llanddewibrefi [1346]. Fe fyddai'n rhaid disgwyl tan 1567 i gael y Testament Newydd a 1588 am y Beibl cyfan yn ein hiaith. Ar lefel cwbl ymarferol mae'n rhaid nodi bod dyfeisgarwch Johannes Gutenberg yn llunio a defnyddio llythrennau sengl o fetel yn 1438, eu gosod mewn ffrâm, eu gorchuddio ag inc a'u gwasgu ar bapur i argraffu tudalen o lyfr, wedi bod yn gam chwyldroadol. Daeth Beibl Gutenberg o'r wasg yn 1455.

John Wycliffe oedd yn gyfrifol am gyfieithu'r Beibl cyntaf i'r Saesneg a hynny rhwng 1382 a 1395. Cyfieithiad o'r Fwlgat i Saesneg Canol oedd hwn yn y gobaith y byddai'r werin yn ei ddeall wrth i'r sgroliau gael eu darllen yn eglwys y plwyf. Tad y Beibl Saesneg mewn gwirionedd oedd William Tyndale [1494-1546] gan iddo gyfieithu o Feibl Groeg Erasmws wrth baratoi'r Testament Newydd. Argraffwyd y gwaith yn Cologne ac anfonwyd y cyfrolau yn ddirgel i Loegr. Llosgwyd hwy gan yr awdurdodau ac yn 1536 rhoddwyd Tyndale ar brawf a'i losgi wrth y stanc yn Vilvoorde, tref gerllaw Brwsel. Pan gyhoeddwyd y Beibl Mawr Saesneg o dan awdurdod Iago'r cyntaf, roedd talpiau helaeth ohono wedi dod o gyfieithiad Tyndale!

Y llyfr cyntaf Cymraeg i'w argraffu oedd 'Yn Y Llyvyr Hwnn', gwaith Syr John Prys o Aberhonddu a hynny yn 1546. Argraffwyd y llyfr yn Llundain gan Edward Whitchurch. Daliai Prys swydd o dan Thomas Cromwell a daeth i sylw Harri VIII gyda'r canlyniad iddo wasanaethu yng ngwledd briodas y brenin ag Ann Boleyn. Roedd ganddo ddiddordeb yn hen lenyddiaeth Cymru ac mae rhai o'i lawysgrifau yn Aberystwyth a'r Amgueddfa Brydeinig. Un copi o'r llyfr sydd ar gael bellach ac mae hwnnw yn Aberystwyth. Cynnwys crefyddol sydd yn y llyfr gyda'r Credo, Gweddi'r Arglwydd a'r Deg Gorchymyn yn rhan bwysig ohono.

'Y Drych Cristianogawl' oedd y llyfr cyntaf i'w argraffu ar dir Cymru a hynny mewn ogof ddirgel ar Drwyn y Fuwch ger Bae Penrhyn. Gwaith Robert Gwyn, offeiriad Pabyddol oedd y Drych a'r weithred o'i argraffu yn brawf o ddewrder Gwyn a'i gydweithwyr.

Fe ddywedir mai 108 o lyfrau Cymraeg a gyhoeddwyd rhwng 1546 a 1660. Bu cynnydd sylweddol rhwng 1660 a 1730 gyda 545 cyfrol yn cael eu cyhoeddi sef arwydd o fwrlwm crefyddol a llenyddol y cyfnod. Un a fu'n flaenllaw iawn ym maes cyhoeddi llyfrau Cymraeg oedd Thomas Jones yr Almanaciwr [1648-1713]. Ganwyd ef yn Nhre'r-ddôl ger Corwen. Pan oedd yn ifanc bu'n deiliwr ond yn 1666 symudodd i Lundain wedi'r Tân Mawr gan ddilyn ei grefft yno am rai blynyddoedd. Erbyn 1676 roedd wedi troi at gyhoeddi llyfrau ac yn Ionawr 1679 fe gafodd drwydded drwy warant frenhinol i gyhoeddi ac argraffu Almanac Cymraeg yn flynyddol. Nid tasg hawdd oedd cael hawl i gyhoeddi llyfrau gan fod Deddf Drwyddedau 1662 yn cyfyngu argraffu i Lundain, Caergrawnt a Rhydychen. Pan ddiddymwyd y ddeddf yn 1695 gwelodd ei gyfle a symudodd i'r Amwythig y flwyddyn honno a phrynu gwasg argraffu. Tŷ yn Hill's Lane oedd ei gartref cyntaf yn Amwythig ond bu'n byw wedyn yn Shoplatch a Castle Hill. Bu farw Awst 6, 1713 a'i gladdu ym mynwent blwyf Sant Mair.

Anglican pybyr oedd Thomas Jones a'i fryd ar gyhoeddi llyfrau crefyddol a defosiynol a fyddai wrth ddant Cymry Cymraeg ei gyfnod. Gwelodd yr angen am Lyfr Gweddi Gyffredin bach y gellid ei gario mewn poced a bu sawl argraffiad o 1687 i 1712. Ei gymwynas fwyaf oedd cyhoeddi Geiriadur Cymraeg/Saesneg yn 1688 o dan y teitl 'Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb'. Methiant fu ei gynnig i gyhoeddi papur newydd Cymraeg ond mae lle i gredu iddo argraffu taflen newyddion Saesneg a'i gwerthu am 1 hen geiniog.

Yr hyn a wnaeth Thomas Jones oedd hau tir ym myd cyhoeddi crefyddol a welodd ffrwyth yn ystod cyfnod y Diwygiad Methodistaidd. Mae'n haeddu cael ei gofio am y gymwynas honno.



# Y Parchg. Gwilym Owen Jones (1930 – 2021)

## Coffâd gan y Parchg. J Gwyndaf Richards



Un o fechgyn Cefn Canol ger Llansilin oedd y Parchedig Gwilym O. Cafodd ei fagu ym Mryn Glas, tyddyn gydag ychydig erwau i gadw buwch neu ddwy, a fyddai yn y dyddiau hynny yn hunangynhaliol. Roedd yn fab i Edward ac Annie Jones ac fe gafodd ei eni ym mis Medi 1930. Amser digon caled oedd hi i deuluoedd yr adeg honno. Cafodd Gwilym ei addysg dros y ffin yn Sir Amwythig - ysgol elfennol yn Selattyn, mae'n debyg, ac yna ysgol uwchradd yng Nghroesoswallt. Wedi gadael ysgol bu am gyfnod yn gweithio ar fferm ei ewythr yn Tynllwyn, Rhiwlas gerllaw. Soniai Gwilym yn aml am ei hoffter o weithio gyda cheffylau - canlyn y wedd. Cafodd brofiad o wneud hyn wrth ddilyn yr aradr ar lethrau Tynllwyn. Bu am gyfnod yn gweithio yn y mart yng Nghroesoswallt, pan oedd y farchnad yng nghanol y dref ar y safle sydd yn awr yn brif faes parcio Croesoswallt. Roedd yn edrych ar ôl adran y moch yno. Bu am gyfnod hefyd yn gweithio i siop enwog E.B. Jones.

Mynychai'r teulu y moddion yng nghapel MC Cefn Canol. Bu farw Edward Jones yn 1953 ac felly syrthiodd y cyfrifoldeb ar Gwilym i ofalu am dyddyn Bryn Glas gyda'i fam. Pan oedd yn ei ugeiniau hwyr roedd â'i fryd ar fynd i'r weinidogaeth a gyda chefnogaeth gweinidog lleol cafodd gyfle i ymuno â choleg diwinyddol ym Manceinion. Yn 1961 fe'i hordeiniwyd i'r weinidogaeth gyda'r Eglwys Fethodistaidd. Bu'n gwasanaethu mewn nifer o gylchdeithiau yn y Gogledd a'r Canolbarth, gan gynnwys Aberdaron, Trefeglwys, Rhuthun a Wrecsam. Bu'n weithgar iawn a dod i adnabod llawer o bobl yr ardaloedd hyn. Roedd yn uchel iawn ei barch ym mhob man.

Gwasanaethodd hefyd ar nifer o bwyllgorau'r Synod a bu'n ysgrifennydd pwyllgor eiddo ac adeiladau'r enwad.

Pan ddaeth hi'n amser ymddeol, cafodd Gwilym y fraint o fod yn Uwchrif Gweithredol a daliodd ati'n brysur i arwain a bugeilio Eglwysi yng Nghroesoswallt am chwarter canrif arall, yn Horeb Croesoswallt a Chefnblodwel a hefyd Seion a Charneddau, sef Eglwysi Methodistiaid Calfinaidd. Yn fwy diweddar roedd hefyd yn bugeilio Eglwysi Gweinidogaeth Bro Llansilin ac yn un o'r eglwysi hyn sef Cefn Canol, Rhydycroesau y gweinyddodd wasanaeth o fedydd am y tro olaf ym mis Medi 2021 i aelod o deulu Bwlchydonge, aelodau ffyddlon yn y capel ble bu'r Parchg Gwilym O. yntau yn aelod yn ei ddyddiau cynnar (gweler y llun isod).

Byddai Gwilym bob amser yn gefnogol iawn i wahanol weithgareddau yn ei ofalaeth. Roedd yn hoffi barddoniaeth ac yn beirniadu gwaith y plant yn Eisteddfod flynyddol Capel Cefnblodwel ac roedd hefyd yn flaenllaw yng Nghymdeithas Eglwys Horeb, Croesoswallt. Fe gafodd gefnogaeth drylwyr ei briod Margaret a'i rhagflaenodd ym mis Ebrill 2017. Colled fawr iddo oedd colli Margaret ond parhaodd Gwilym yn weithgar hyd wythnosau olaf ei fywyd. Yn bersonol cefais y fraint o gydweithio yn hapus iawn gyda Gwilym dros y pymtheg mlynedd diwethaf. Bu farw ar 9fed o Ragfyr yn Ysbyty Telford ac fe gynhaliwyd gwasanaeth yng nghapel Horeb, Croesoswallt ar ddydd Mercher 23ain o Ragfyr o dan arweiniad y Parchg. Ddr. Jennifer Hurd, Cadeirydd Synod Cymru ac yna daearwyd ei weddillion ym Mynwent Croesoswallt lle gorweddai ei briod. Ar y daflen gwasanaeth nodwyd ei fod yn gyfaill arbennig i lawer ac fe allwn gytuno â hynny. Mae ein cydymdeimlad gyda'i deulu a hefyd yr aelodau oedd o dan ei adain.



# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Ebeneser, Eglwysbach

**PARTI NADOLIG**
Cynhaliwyd ein parti Nadolig ar ddydd Sul Rhagfyr 12. Diolch yn fawr i'r chwiorydd am y bwyd. Daeth Siôn Corn â llond sach o anrhegion i'r plant ac fe wnaeth pawb fwynhau'r achlysur yn fawr iawn.
**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER



### Ebeneser, Treuddyn

**PROFEDIGAETH**
Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Bronwen Gough dan ofal ein gweinidog, y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans ar ddydd Gwener, Rhagfyr 17eg gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ. Hunodd Bronwen yn dawel yn ei chartref dan ofal ei mab a'i merch. Bu'n aelod ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Wesle Salem, Eryrys ar hyd ei hoes tan iddo gau rai blynyddoedd yn ôl. Cyflawnodd nifer o swyddi, gan gynnwys Ysgrifennydd y Capel ac Organydd. Bydd colled fawr ar ei hôl a chydymdeimlwn yn ddwys â'i holl deulu.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at holl aelodau a ffrindiau'r capel, gan gofio yn arbennig am y rhai nad ydynt yn ddigon da ar hyn o bryd i fynychu'r gwasanaethau.

**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

### Pendref, Dinbych

**OEDFAON**
Yn ystod Tachwedd a Rhagfyr cawsom oedfaon bendithiol dan ofal y Parchedig Ganon Philip Williams, yr Hybarch Bernard Thomas, Dilwyn Jones a Royce Warner. Ar y Suliau pan nad oedd pregethwyr ar gael, cynhaliwyd Cyfarfodydd Gweddi



**NADOLIG**
Yn ystod cyfnod yr Adfent a'r Nadolig paratowyd y preseb gan Gwyn a Sylvia a diolchwn iddynt am eu gwaith. Diolch hefyd i Bethan am drefnu pum cannwyll yr Adfent.

### Bethel, Prestatyn





**DATHLU'R NADOLIG**
Cawsom gwmni rhai o'n haelodau hŷn sydd ddim yn teimlo yn ddigon da i ddod i Oedfa drwy gynnal dathliad Nadolig fore dydd Mercher cyn y Nadolig. Roedd yn braf cael cyfle am sgwrs. Diolch i Mr Gwyn Bartley am drefnu'r cinio blasus.

**BANC BWYD PRESTATYN**
Mae'r rhoddion misol o fwyd ac arian i Fanc Bwyd Prestatyn wedi bod yn anhygoel. Diolch o galon i bawb am gyfrannu. Yn ogystal â'r rhoddion arferol ym mis Rhagfyr, rhoddwyd bocsys o siocled gan blant yr Ysgol Sul – pwysig iawn eu bod hwythau'n dysgu cofio am rai llai ffodus na nhw eu hunain.

**COFION**
Mae amryw o'n haelodau yn methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd. Cofiwn yn arbennig am Mrs Rowenna Hughes sydd wedi bod yn yr ysbyty am rai wythnosau ond sy'n gwella, Mrs Glenys Savage, Mrs Eluned Owen, Mrs Mair Davies, Miss Doreen Jones, Mrs Ennis Lewis, Mrs Eirlys Davies, Miss Ceridwen Jones, Mrs Gwen Parry Jones, Mr a Mrs Elwyn Roberts a Rhys Wyn Thomas. Pob un yn aelodau gwerthfawr ac fe gofiwn am bob un ohonoch yn ein gweddïau. Diolch i'n bugail y Parchg Brian Huw Jones am baratoi oedfa ysgrifenedig sy'n cael ei dosbarthu i'r cleifion yn wythnosol, ac i bawb sydd yn cadw mewn cysylltiad.

**PARTI NADOLIG Y PLANT**
Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i'r plant yw'r parti Nadolig ac fe lwyddwyd i gynnal y parti eleni er gwaethaf cyfyngiadau Covid. Y prif westeion oedd y "Corachod Drwg" a ddaeth i chwarae gemau a diddanu'r plant. Diolch i'r rhieni am drefnu'r parti a pharatoi'r anrhegion a'r bwyd.



bendithiol dan arweiniad rhai o aelodau'r capel a mawr yw ein diolch iddynt am eu gwasanaeth. Blaenor mis Tachwedd oedd Elfed Evans gyda Sheila Thomas yn gofalu am fis Rhagfyr. Diolch i Vera Savage am gyfeilio ac i Gwyn Williams am arwain y canu.

**ADNEWYDDU'R CYFAMOD**
Ar ddydd Sul yr 2il o Ionawr 2022 cynhaliwyd oedfa Adnewyddu'r Cyfamod a Chymun dan ofal ein gweinidog y Parchedig Jennie Hurd. Yn ystod y gwasanaeth cyfeiriwyd at y ffaith fod Pendref wedi agor ei ddrysau am y tro cyntaf ar y 1af o Ionawr 1802; felly, o fewn diwrnod, roedd y capel yn dathlu ei ben-blwydd yn 220 oed. Pendref oedd y capel Wesleaidd Cymraeg cyntaf i'w adeiladu, yng Nghymru ac yn wir yn y byd. Yn ôl yr hanes roedd tua 600 yn bresennol yn yr oedfa ar y bore Sul arbennig hwnnw dan arweiniad y gweinidog y Parchedig Owen Davies. Am fod yr oedfa arbennig honno ar ddydd cyntaf y flwyddyn, yn ôl y traddodiad Wesleaidd ymgymerwyd ag adnewyddu'r cyfamod ac mae'n braf meddwl ein bod yn dal i addoli yn y capel




**MARCHNAD NADOLIG**
Dydd Gwener Tachwedd 26ain cawsom gyfle i gynnal stondin ym Marchnad Nadolig tref Dinbych yn Neuadd y Farchnad. Roedd yn ddiwrnod hir ond llwyddiannus gydag elw ariannol eithaf sylweddol. Diolch i'r aelodau oedd ar y rota i edrych ar ôl y stondin.






ac yn parhau â'r gwasanaeth arbennig o Adnewyddu'r Cyfamod.

**CYFARCHION**
Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i'n haelodau a'r cyfeillion sydd yn cyd-addoli â ni ac sydd mor gefnogol i ni fel eglwys, ac i holl ddarllenwyr y Gwyliedydd. Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r aelodau sydd ar hyn o bryd, am wahanol resymau, yn methu â mynychu'r oedfaon.

**CYDYMDEIMLO**
Trist i ni fel Eglwys oedd clywed am farwolaeth y Parchedig Gwilym O. Jones a chydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu.
**GOHEBYDD .** MARY JONES







**GWASANAETH NADOLIG**
Cynhaliwyd ein gwasanaeth Nadolig ar Ragfyr 19eg. Ffion oedd yn gyfrifol am ysgrifennu'r sgript a chynhyrchu ac Angela oedd yn gofalu am y canu a'r gerddoriaeth. Diolch hefyd i Anti Jane a'r mamau am drefnu'r gwisgoedd. Cafwyd golygfa ddifyr lle roedd Mair wrthi gyda'i chadach yn glanhau pan ddaeth Gabriel ati i ddweud ei bod yn mynd i gael baban, ac rwy'n tybied mai Bethel oedd yr unig le y cafodd y tri gŵr doeth delesgop go iawn i edrych am y seren. Roedd y bugeiliaid mor fach fel y bu'n rhaid i'w mam wisgo fel bugail hefyd i'w helpu. Pob bendith i bob un ohonynt a llawer o ddiolch i'r rhieni a'r holl aelodau am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn.



Er cyfyngiadau Covid, mi wnawn ein gorau i barhau i gydaddoli, efallai mewn ffyrdd newydd, a diolchwn am y cyfle i fod yn rhan o 'Deulu Bethel'.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## *Horeb, Croesoswallt*

**ER COF ANNWYL**
Cofiwn yn annwyl am y diweddar Barchedig Gwilym Owen Jones, a fu farw ar Ragfyr y 9fed yn 91 oed yn dilyn cyfnod byr o waeledd. Daeth ef a'i briod, Margaret, i fyw i Groesoswallt ar ôl bod yn gweinidogaethu mewn nifer o gylchdeithiau yng ngogledd Cymru.

Bu'n weinidog ar eglwysi Bro Croesoswallt am dros ugain mlynedd, a bu'n fugail tyner a chydwybodol arnom ar hyd yr amser. Diolchwn i Dduw am ei ofal drosom. Gwnaeth "ddiwrnod da o waith". Cydymdeimlwn yn gywir â'r teulu oll. Bu ei angladd ar ddydd Iau Rhagfyr 23ain yn Horeb o dan arweiniad y Parchedig Ddr Jennie Hurd a'r Parchedig Gwyndaf Richards, a rhoddwyd ei weddillion i orffwys gyda'i briod ym mynwent y dref.

**DYMUNIADAU GORAU**
Bu Aubrey Davies yn yr ysbyty yn cael clun newydd, a da yw ei weld o gwmpas ac yn gwella. Anfonwn ein cofion at Mrs Beryl Powell sydd heb fwynhau yr iechyd gorau yn ddiweddar. Ein dymuniadau gorau hefyd i Myfyd Davies, a gafodd godwm yn ei chartref; da yw deall ei bod yn gwella.
**GOHEBYDD .** EURWYN JONES



# O'r Pen Yma gan Angharad Tomos



Anghydffurfwyr (wel, Wesla) fu ein teulu ni ers hil gerdd, felly pethau anghyfarwydd iawn ydi eglwysi. Fydda i mond yn mynd i'w gweld pan ydw i ar wyliau. Dwi'n meddwl mod i'n ugain oed cyn i mi fentro i wasanaeth mewn eglwys, ac eglwys Babyddol oedd honno pan ron i'n treulio amser yn Iwerddon. Ond ers i mi ddod i bentref Penygroes rhyw chwarter canrif yn ôl, byddaf yn mynd i wasanaeth eglwysig ddwywaith y flwyddyn – unwaith yn yr haf, ac unwaith yn y gaeaf. Pan fo'r enwadau yn cwrdd yn ystod mis Awst, daw tro yr eglwys i gynnal y gwasanaeth. Ac yna, bob bore Nadolig (ar wahân i 2020) cynhelir y plygain yn hen eglwys Llanllyfni.

Ac er mor gryf ydi'r gwreiddiau anghydffurfiol ynof, mae yna bethau yr ydw i'n eu hoffi am wasanaeth eglwysig, ac un o'r rheiny yw'r defnydd o ganhwyllau. Rydw i hefyd yn hoff o'r ffordd y maent yn talu sylw i'r amser o'r flwyddyn, a dynodi dyddiau gŵyl traddodiadol. Mae'n rhoi gwefr i mi bob Dolig weld yr offeiriad yn cynnau'r pedair cannwyll, ac yna'n goleuo yr un yn y canol. Mae yr eglwys ei hun wedi ei goleuo â chanhwyllau. Mae'r ddefod o oleuo cannwyll yn mynd â ni'n ôl ganrifoedd.

Dwi'n credu inni golli rhywbeth gyda dyfodiad trydan i'n bywyd (er na ddylwn ddeud hyn gan i'm tad weithio i gwmni trydan Manweb!) Ond mi ddaru dynoliaeth ddechrau cymryd goleuni yn ganiataol, a cholli cysylltiad efo'r tywyllwch. Daethom yn llai ymwybodol o godiad a machlud haul, o olau lleuad, o brofi gwyll a chyfnos. Mae hyd yn oed y geiriau hyn yn ddieithr inni bellach.

Fel mewn bywyd, dim ond wedi profi'r tywyllwch eithaf y down i werthfawrogi goleuni. Rydw i wedi cychwyn arferiad o danio cannwyll peth cyntaf yn y bore. Mae gwylio fflam fywiol cannwyll yn ffordd dda o fyfyrio. Un o'm hoff ddyfyniadau yw 'Gwell goleuo un gannwyll na melltithio'r tywyllwch'.

Ym mis Chwefror y dathlwn Ŵyl Mair y Canhwyllau sy'n dynodi Crist yn mynd i'r Deml am y tro cyntaf. Goleuwch gannwyll yn y mis hwn, ac nid drwg o beth fyddai parhau'r arferiad drwy'r mis bach. Fel twll y gaeaf yr ydym yn ystyried yr amser yma fel rheol, ac mae'r Gwanwyn i weld mor bell. Ond yn raddol, mae'r dydd yn ymestyn, a gallwn ninnau ddiolch – am gael ein cadw drwy'r tywyllwch, a chan wybod fod yna oleuni i'n cynnal yn ddyddiol.

Diffoddwch y trydan ambell waith, a chynefino efo golau naturiol. Bydd yn rhatach, a falle bydd gwirionedd goleuni yn amlygu ei hun inni o'r newydd!



## Gŵyl Dewi

Diolchwn am ein nawddsant Dewi ac am gael dilyn yn ôl troed y saint.

# Arwyddocâd Lliwiau

## *gan Glyn Tomos*

Fel miloedd eraill mae'n siŵr, rwyf yn mawr obeithio y byddwn yn gallu mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron yr haf hwn. Bob blwyddyn un o'r atyniadau i mi ar faes yr Eisteddfod yw'r Lle Celf sydd yn ddathliad cenedlaethol o'r celfyddydau gweledol a phensaernïaeth yng Nghymru, yn ffenest siop i'r byd celf. Er cydnabod nad wyf yn deall popeth yno, ni allaf ond edmygu



yr holl waith sydd wedi mynd i'r holl gynnyrch sydd yn cael ei arddangos yno. Byddaf yn rhyfeddu at y meddwl sydd tu ôl i'r creadigaethau sydd yn gwneud y profiad o fynd o gwmpas y Lle Celf yn un mor arbennig.

Profiad tebyg oedd ymweld ag Oriel Tate Modern yn Llundain yn ddiweddar. Ymysg yr holl gasgliadau amrywiol a drudfawr oedd yn cael eu harddangos yno, fe adawodd gwaith un artist gryn argraff arnaf. Yr artist honno oedd gwraig o'r enw Marta Minujïn o'r Ariannin. Tra'r oedd hi yn byw yn ninas Paris yn 1961 dechreuodd feddwl beth oedd lliw yn ei ychwanegu i wrthrychau pob dydd. Fel man cychwyn paentiodd fatres oedd ganddi yn ei hystafell wely. Wrth baentio'r matres fe drodd y cyfan yn ffrwydrad o liw. Iddi hi roedd y cyfan yn syml. Pam na ellir mynd ag iaith celfyddyd i'r mannau hynny lle'r ydym yn treulio hanner ein bywyd. Yn yr arddangosfa yn y Tate Modern, roedd y fatres yn futon cartref oedd wedi ei wnïo gan Marta Minujïn, a'i baentio mewn lliwiau neon llachar. Fel gwrthrych cyfarwydd, fe allwn edrych ar y defnydd a dyfalu sut deimlad fyddai ei gyffwrdd. Mi fyddai Minujïn yn cymryd hen fatresi o ysbytai a safleoedd taflu sbwriel a'u trawsnewid yn waith celf lliwgar.

I Minujin roedd matresi yn cynrychioli bywyd a phrofiad, oherwydd ein bod yn treulio cymaint o'n hamser yn eu defnyddio.

Mae lliwiau i'w gweld o'n cwmpas yn barhaol. Rydym yn byw ein bywyd mewn lliw. Mae pob un ohonom yn edrych ar liwiau yn wahanol, ac fe all ein hymateb ddibynnu ar ein golwg, sut yr ydym yn teimlo ar y pryd, neu ar ein cefndir a'n profiadau. Mae artistiaid dros y canrifoedd wedi ceisio ehangu ar y ffordd mae lliw yn cael ei ddefnyddio, o baent i ffilm ac i gyfryngau newydd.

Wyddoch chi fod yr Eifftiaid yn peintio lloriau eu temlau yn wyrdd? Symbol o fuddugoliaeth oedd y lliw yn yr hen wlad Groeg, tra yn yr Alban arferai gwyrdd gael ei wisgo fel symbol o fuddugoliaeth. Yr unig faner genedlaethol yn y byd sydd yn unlliw ydy baner werdd Lybia.

Ar y llaw arall, pe byddech yn Rhufeiniwr yn byw yn y cyfnod cyn Crist byddai'r lliw coch yn arwydd o frwydr, a byddai'r un peth yn wir i filwr yn yr India. Ond pe byddech yn dod o Rwsia mae'r gair am y lliw coch yn golygu prydferth. Yn Rwsia hefyd, defnyddiodd y Bolsiefigiaid faner goch fel eu symbol pan drechon nhw'r Tsar yn 1917, ac o'r herwydd daeth coch yn symbol o Gomiwnyddiaeth.

O fewn yr Eglwys, mae i liwiau le canolog ac arbennig iawn. Mae'n rhan allweddol o'r gwasanaethau wrth i'r lliwiau o fewn yr adeilad newid yn ôl tymhorau blwyddyn Eglwysig. Defnyddir lliwiau gwahanol ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn Eglwysig ar liain o flaen yr allor, ac ar y lliain bach sydd o flaen y pulpud a'r rhubanau sydd yn nodi tudalennau yn y Beibl. Mae pum lliw gwahanol i gyd sef coch, gwyn, porffor, gwyrdd a du. Defnyddir lliw gwyn ar Wyliau ein Harglwydd megis Nadolig, Pasg, Dyrchafael: Gwyliau y Fendigaid Forwyn Fair; Gwyliau Saint nad ydynt Ferthyron; a Gŵyl Fihangel a'r Holl Angylion. Coch yw lliw dyddiau'r Merthyron a gollodd eu gwaed wrth fod yn dystion i Grist. Dyma hefyd liw'r Sulgwyn – lliw y tafodau tân. Mae porffor yn lliw sydd yn cael ei ddefnyddio yn nhymor yr Adfent, y Garawys, a'r Tridiau Gweddi. Lliw natur yw gwyrdd, sydd yn cael ei ddefnyddio saith niwrnod ar ôl yr Ystwyll ac yn ystod Tymor y Drindod. Yr olaf o'r lliwiau yw du, ac fe'i defnyddir ar ddydd Gwener y Groglith ac mewn gwasanaethau sydd yn cael eu cysylltu â marwolaeth.

Ar hyn o bryd rydym yn nhymor yr Ystwyll ac o'r herwydd y lliw gwyrdd a ddefnyddir, ond pan ddaw tymor y Garawys mi fydd y lliw yn newid eto, a'r tro hwn i liw porffor, lliw sydd yn cynrychioli dioddefaint a phoen ac yn ein harwain at y Groglith. Ystyrir tymor y Garawys yn amser paratoi, myfyrio a disgwyl a dyna a wnawn yn ystod y Gwanwyn hwn.

Diolch am holl liwiau'r greadigaeth a chreadigrwydd artistiaid sydd yn cyfoethogi ein bywyd pob dydd.



Pererin wy'n y byd,
  Ac alltud ar fy hynt,
Sy'n ceisio dilyn ôl y praidd -
  Y tadau sanctaidd gynt;
I 'mofyn gwlad sy well,
  Er 'mod i mhell yn ôl,
Trwy gymorth gras, ymlaen mi af,
  Dilynaf innau'u hôl.

Os rhaid ymdrechu dro,
  Milwrio a chario'r groes,
A mynd dan wawd a gwg y byd,
  Dros ennyd fer fy oes;
Caf goron gyda'r saint,
  Tragwyddol fraint sy'n ôl;
Trwy gymorth gras, ymlaen mi af,
  Dilynaf innau'u hôl.

**DAFYDD JONES O GAEO**

## Ardal Bathafarn



**AELODAU NEWYDD**
Ar Ragfyr 5ed bu dathlu yn Eglwys Seion, Glyndyfrdwy, pan ymunodd dau aelod newydd â'r achos sef Dilwyn a Mary Jones. Cafodd Mary ei dwyn i fyny yn y capel ac yno bu iddi hi a Dilwyn briodi cyn ymuno â'i gŵr yng nghapel y Bedyddwyr yn y pentref. Bellach a'r capel hwnnw wedi cau, penderfynodd y ddau ddod yn aelodau atom yn Seion. Roedd y gwasanaeth derbyn dan ofal y Parchedig Jennifer Hurd a chyflwynwyd *Caneuon Ffydd* i'r ddau gan aelodau'r capel. Wedi'r gwasanaeth aeth pawb draw i Neuadd Goffa Owain Glyndŵr am de prynhawn a sgwrs.

**OEDFAON**
Hyfryd oedd cael cwmni Margaret Morgan ym Mathafarn ddechrau Rhagfyr, a'r gwasanaeth yn seiliedig ar Weithredu dros Blant. Swynol iawn oedd y carolau a ganwyd gan Margaret, a'r gynulleidfa yn ymuno'n dawel â hi. Diolch i Margaret am ei chenadwri ddifyr. Y Sul canlynol cafwyd gwasanaeth Nadoligaidd dan ofal Elizabeth gyda chyfle unwaith eto i ganu gwahanol garolau yn dawel gyda'n gilydd. Cafwyd gair o groeso gan Rhodri a'r organydd oedd Rhian. Yn anffodus penderfynwyd, ar ôl trafod â'r aelodau, na fyddem yn cynnal gwasanaeth Nadolig yr Ardal ym Mathafarn gan fod nifer yr achosion o Covid yn neilltuol o uchel yn y cylch a bod angen gwneud popeth i gadw pawb yn ddiogel yn y cyfnod pryderus hwn. Gobeithio y cawn ddod at ein gilydd fel Ardal i wasanaeth yn y Gwanwyn sef ar Sul y Blodau pan fyddwn yn edrych ymlaen at groesawu'r Parchedig Jennie Hurd.

**CYDYMDEIMLO**
Colled fawr i ni yw marwolaeth Gretta Davies, Rhos y Wern, cymeriad annwyl a diffuant iawn. O Benmachno y deuai Gretta yn wreiddiol ac roedd ganddi feddwl y byd o'r ardal honno. Pleser oedd cael ei chwmni hwyliog yng nghôr Eisteddfod Dinbych yn 2001 a bu'n aelod mewn sawl côr ar hyd y blynyddoedd gan gynnwys côr Eglwys Sant Pedr, Rhuthun ac Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Roedd hi'n alto arbennig o dda. Bu Gretta'n hynod o selog i oedfaon a gwahanol achlysuron ym Mathafarn dros y blynyddoedd. Ar ddiwedd ei hoes derbyniodd ofal yng nghartrefi Dolwen, Dinbych a Wrecsam. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch am ei bywyd yn Eglwys Sant Pedr, Rhuthun, dan arweiniad y Parchg. Sally Harper. Hedd Wyn oedd ei harwr a darllenwyd penillion o'i eiddo gan Elizabeth Jones. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at Barry, Paul, Anwen a Geoff a'u teuluoedd o golli priod, mam a nain annwyl iawn, hefyd at Edwina a Rowena o golli modryb hoffus. Cafwyd teyrnged deimladwy gan Geoff Davies, mab Gretta. Ei cholli'n dristwch a'i chofio'n ddiddanwch.

Gyda thristwch hefyd y clywsom am farwolaeth y Parchg. Gwilym O. Jones. Bu'n Arolygydd ffyddlon a gweithgar iawn i ni yma rhwng 1985 a 1995, cyn ymddeol i Groesoswallt lle bu'n gofalu'n ddiwyd am aelodau Horeb a Seion. Roedd gennym feddwl y byd ohono a'i briod hawddgar Margaret. Cafwyd ei gynhebrwng yng nghapel Horeb, Croesoswallt i'r teulu a daeth ffrindiau ynghyd i dalu'r gymwynas olaf iddo ym Mynwent y Dref dan arweiniad y Parchedigion Jennie Hurd a Gwyndaf Richards. Melys iawn fydd yr atgofion amdano. Mae ein cydymdeimlad yn ddiffuant iawn at y teulu.

**COFION**
Anfonwn ein cofion anwylaf at Gladwen Jones, Gwyddelwern, Iolo Evans a Dilys Jones, Rhuthun, sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty. Cofion hefyd at Olwen Griffiths, Llys Awelon, Lorna Wynne, San Meugan a Gwyn Atkinson, Clocaenog. Meddyliwn amdanoch a dymunwn flwyddyn newydd dda i bawb.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES



**CYMWYNASWR**
Yn ystod cyfnod yr Adfent, gwobrwywyd Gwyn Williams am ei gyfraniad diflino i bentref Llanbedr Dyffryn Clwyd drwy'r blynyddoedd. Cyflwynwyd siec iddo gan Syr Mark Hudson ar ran Cymdeithas Elusennau Llanbedr a dewis Gwyn oedd rhoi cyfraniad arall gan y Gymdeithas i Ward Enfys Ysbyty Glan Clwyd. Mae Gwyn bob amser yn barod ei gymwynas ac yn un o hoelion wyth y pentref. Mae'n ffrind da i bawb ac yn haeddu'r gydnabyddiaeth hon. Llongyfarchiadau calonnog iddo gennym ni i gyd ym Mathafarn.

## Tabernacl, Llanfyllin

**GŴYL SAN STEFFAN**
Cynhaliwyd oedfa Saesneg ar y Sul arbennig hwn ac arweiniwyd y gwasanaeth gan Mr Tom Ellis. Yn ei anerchiad, tynnodd ein sylw at adnod sydd wedi'i hamlygu ei hun iddo lawer gwaith yn ystod ei fywyd sef 'Ymlonyddwch a gwybyddwch mai myfi sydd Dduw' (Salm 46:10), adnod a gyflwynwyd iddo pan gafodd ef a'i frawd John eu bedyddio yn yr Iorddonen. Pwysleisiodd Tom mor bwysig yw i ni i gyd gymryd amser i ymdawelu yn ein bywyd gor-brysur a neilltuo amser i ddarllen y Beibl yn gyson.

Yn ôl ei harfer roedd Mrs Llywela Roberts wedi addurno'r capel yn hardd ar gyfer cyfnod y Nadolig a diolchwn iddi am hynny.

**DECHRAU BLWYDDYN**
Cynhaliwyd gwasanaeth hyfryd dan ofal Mair a Tom Ellis i groesawu'r flwyddyn newydd. Thema'r gwasanaeth oedd Tywysog Tangnefedd. Canolbwyntiwyd ar nifer o emynau a chyflwynwyd eu cefndir a ffeithiau ynglŷn â'r teitlau a roddwyd i'r Iesu, cyn i'r gynulleidfa gyd-wrando neu gyd-ddarllen yr emynau hynny. Cymerwyd rhan gan amryw o'r gynulleidfa yn y gwasanaeth cynnes, gobeithiol hwn.

Diolch i Tom a Mair Ellis am eu gwaith gydol y flwyddyn. Anfonwn ein cofion at yr aelodau sy'n methu dod i'r gwasanaethau a dymunwn bob bendith yn 2022.

**ER COF ANNWYL**
Tristwch i aelodau'r Tabernacl oedd clywed am farwolaeth Mrs Margaret Blainey, Bronallt a chynt o Bontrobert. Nid oedd wedi bod mewn iechyd da ers rhai misoedd, ond roedd bob amser yn gwerthfawrogi sgwrs gyda'i ffrindiau niferus. Roedd yn aelod yng nghapel Pontrobert, lle bu'n un o'r organyddion. Bu hefyd yn ohebydd Pontrobert i'r *Gwyliedydd*. Wedi symud i fyw i Lanfyllin daeth yn ffrind ffyddlon i gynulleidfa'r Tabernacl a'i chroeso yn gynnes i lawer cennad a phregethwr ar y Sul. Mae ein cydymdeimlad gydag Elinor, ei merch, a'r teulu a hefyd gyda' i holl gyfeillion yn Llanfyllin, Pontrobert ac ar draws y sir.
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

## Pisgah, Rhiwlas

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad llwyr a buan i Gareth Williams.
**GOHEBYDD .** EINIR WILLIAMS

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**OEDFAON BENDITHIOL**
Pnawn Sul Tachwedd 21ain cafwyd oedfa Gymun fendithiol iawn dan arweiniad y Parchedig Jennie Hurd. Yna ar ôl yr oedfa cafwyd ein cyfarfod blynyddol a phob un ohonom yn obeithiol iawn at y dyfodol. Pnawn Sul Rhagfyr 5ed cafwyd oedfa o naws Nadoligaidd dan arweiniad Mr Owie Morris ac yna pnawn Sul Rhagfyr 19 cafwyd oedfa'r Nadolig dan arweiniad Miss Barbara Thomas. Yr organydd yn y tair oedfa oedd Mrs Jane Jones. Diolch am dair oedfa fendithiol iawn.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Miss Barbara Thomas a'r teulu yn eu profedigaeth sydyn o golli brawd annwyl, Alun Thomas, ar ddydd cyntaf y flwyddyn 2022. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich profedigaeth.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â Mrs Iris Jones, y bu farw ei chyfnither Miss Brenda Parry, yn 90 oed ar Ionawr 2il mewn Cartref Gofal yng Nghaernarfon. Anfonwn ein cofion atoch, Iris.
**GOHEBYDD .** EIRIAN JONES

## Eglwys Unedig Colwyn

**LLONGYFARCHIADAU**
Mae holl aelodau Horeb a Disgwylfa yn ymuno i longyfarch John a Rhiannon Jones yn galonnog iawn, ar ddathlu eu priodas ddiemwnt ar 27 Rhagfyr. Fe'u priodwyd yng nghapel Rehoboth, yr Eglwys Fethodistaidd, Gwaenysgor. Mae John a Rhiannon yn aelodau ffyddlon a gweithgar iawn a dymunwn bob bendith iddynt ar gyrraedd carreg filltir arbennig.



**DATHLU**
Ar fore Sul Rhagfyr 19 cawsom y fraint a'r pleser o ymuno â'n cyfeillion yn Hebron, Hen Golwyn i fwynhau gwasanaeth Nadoligaidd hyfryd iawn. Llongyfarchiadau i'r holl blant ac oedolion a ddaeth at ei gilydd i gymryd rhan mor raenus.
**GOHEBYDDION .** RHIANNON JONES A KEN OWEN

## Shiloh, Tregarth

**DYMUNIADAU GORAU**
Wrth ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb, anfonwn ein cofion hefyd at holl aelodau Shiloh ac Eglwysi eraill o'n cwmpas sydd yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd i fynychu gwasanaethau. Cofiwn yn arbennig am Wynne Roberts a Ronnie a Gwenda Hughes o blith aelodau Shiloh, gan ddymuno i chi iechyd a llawenydd.

**CARTREF NEWYDD**
Dymuniadau gorau a phob bendith i Anwen Griffiths yn ei chartref newydd yn Nwygyfylchi.

**GWASANAETHAU**
Hyfryd oedd medru dathlu'r Nadolig gyda dau wasanaeth arbennig. Oedfa Deulu'r Nadolig a gafwyd ar Ragfyr 19, a braf oedd cael croesawu pawb ddaeth ynghyd. Cafwyd datganiad ar y delyn gan Gwenno Roberts ar ddechrau'r oedfa a chaneuon Nadoligaidd gan Mali Non a Nanw Branwen gyda Christine Morris Jones yn cyfeilio. Canodd Helen Wyn a darllenwyd rhannau o'r Ysgrythur, barddoniaeth a charolau gan Ffion ac Aziliz Kervegant, Gwenno a Sioned Roberts, Rhian Evans-Hill, Ffion Rowlinson, Angharad Williams, Valerie Ellis Jones, a datganiad arbennig iawn ar yr organ gan Wynn Williams. Diolch i bawb am wneud yr achlysur yn un bendithiol a chofiadwy.

Ar Noswyl y Nadolig, Rhagfyr 24, bu Gwasanaeth Cymun y Nadolig dan ofal ein gweinidog, y Parchedig Richard Gillion. Dyma draddodiad sydd wedi parhau yn Shiloh ers blynyddoedd lawer a diolchwn ei fod yn dal i gael ei gynnal.
**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

## *Salem, Rhyd y foel*

**CINIO SUL**
Wedi'r oedfa fore Sul Rhagfyr 5ed aeth rhai o aelodau a chyfeillion y capel draw i westy Bod Erw, Llanelwy a braf iawn oedd cael cyfle i gymdeithasu dros ginio Nadolig.

**GWASANAETH Y NADOLIG**
Fore Sul 19eg o Ragfyr cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu tymor y Nadolig o dan ofal ein gweinidog y Parchg. Jennie Hurd. Canwyd ychydig o garolau i gyfeiliant Catherine Blythin ar y piano, a thrwy gyfrwng cryno ddisgiau. Diolch i Catherine am gyfeilio ac i Esther am fod yng ngofal y dechnoleg ymhob gwasanaeth gan wneud yn siŵr fod geiriau'r emynau yn ymddangos ar y wal a hefyd fod cerddoriaeth y cryno ddisgiau yn llifo drwy'r uchel seinydd. Braf iawn oedd cael cwmni rhai o'r plant a'r ieuenctid sydd mor barod i gymryd rhan. Cawsom ddeuawd gan Mari a Cadi a'u mam Anna yn cyfeilio, datganiad ar y gitâr gan Gwil – y tro cyntaf iddo gymryd rhan yn gyhoeddus ar y gitâr – a darlleniadau gan Cadi Mai, Beth a Steffan. Darllenodd Ruth, mam Beth a Steffan, benillion yn Saesneg gan Tom Krause sef "A Christmas Lesson". Cafwyd anerchiad bendithiol iawn gan ein gweinidog, yn defnyddio ychydig o addurniadau a welwn ar ein coeden Nadolig – angel, goleuadau, tinsel a pheli lliwgar – ac esbonio'r arwyddocâd Cristnogol sydd ynghlwm â hwy. Roedd naws arbennig iawn i'r gwasanaeth a mwynhawyd paned a mins peis wedi'r oedfa. Gwnaed casgliad tuag at *Gweithredu dros blant*. Roedd y capel wedi'i addurno yn hyfryd oddi mewn ac oddi allan. Diolch i bawb am eu cyfraniad er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddathlu gwir ystyr y Nadolig er mor anodd y sefyllfa bresennol. Ar derfyn y gwasanaeth fe ddiolchodd Tudur i'n gweinidog y Parchg. Jennie Hurd am ei gwasanaeth, i'r rhai a gymerodd ran ac i swyddogion Salem am eu hymroddiad drwy gydol y flwyddyn a aeth heibio i addasu ein haddoliad ac i wneud eu gorau i gadw pawb yn ddiogel.

**COFION**
Ar ddechrau blwyddyn newydd meddyliwn am nifer oherwydd eu hamgylchiadau sydd yn methu â mynychu'r oedfaon ac anfonwn ein cofion atynt.

**BANC BWYD**
Parhawn i gefnogi'r banc bwyd lleol. Diolch i bawb am eu cyfraniadau yn yr wythnosau cyn y Nadolig.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE





## *Ebeneser, Dolgellau*

**COLLED**
Ar y 13eg o Dachwedd, bu farw Mr Wyn Meredith yn 90 oed. Bu'r gwasanaeth angladdol ar y 26ain o Dachwedd dan ofal y Parchedig Jennie Hurd. Roedd Wyn wedi bod yn aelod yn Ebeneser trwy gydol ei oes a bu'n flaenor am nifer fawr o flynyddoedd yn ogystal â dal amryw o swyddi eraill ynghlwm â'r capel. Pleser mawr iddo oedd gwneud yn siŵr bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel a hardd bob amser. Bydd colled fawr i ni yn Ebeneser ar ei ôl. Cydymdeimlwn â'i fab Dafydd, ei ferch-yng-nghyfraith Sarah a'i wyrion Cai, Macs a Lucie yn eu profedigaeth.

**GWASANAETH CAROLAU CYTÛN**
Mae ysbryd cydweithio yn parhau rhwng eglwysi Dolgellau er i'r pandemig ein rhwystro rhag dod ynghyd fel y byddem yn dymuno. Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Cytûn Dolgellau ar Zoom eleni, gydag aelodau o Ebeneser a holl eglwysi'r dref yn cymryd rhan.

**GWELLHAD**
Rydym yn parhau i feddwl am y Chwaer Eluned Williams sydd wedi derbyn llawdriniaeth bellach cyn y Nadolig. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddi.

**OEDFAON**
Oherwydd y sefyllfa bresennol, gyda rhifau Covid yn parhau i gynyddu, penderfynwyd ar ddechrau'r flwyddyn newydd na fyddem yn cynnal gwasanaethau yn y capel tan fydd y sefyllfa'n gwella, ond rydym yn parhau i baratoi ac anfon allan wasanaeth wythnosol at bawb yn yr Ardal.

**CYFARCHION**
Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i'n holl aelodau a'u teuluoedd.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## *Sant Paul, Aberystwyth*

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau gorau i Emily Lloyd Jones, sydd erbyn hyn yn byw yn y cartref gofal yn Abermâd. Cofiwn yn gynnes am yr holl aelodau nad ydynt yn medru dod i'r capel oherwydd salwch neu henaint.
**GOHEBYDD .** LIONEL MADDEN

# Mandragorau

## *gan Myfanwy Povey*



Dyma'r tymor pan fyddwn yn edrych ymlaen at amser ffrwythlon, yn dyheu am dyfiant a bywyd newydd, a'r holl gread yn meddwl am basio genynnau i'r genhedlaeth nesaf. Mae babanod dynol yn cael eu geni drwy'r flwyddyn, wrth gwrs, ond yn y gwanwyn y bydd y rhan fwyaf o famaliaid yn geni epil, pan fydd llawnder o fwyd maethlon yn haws ei gael. Gall fod yn adeg anodd i ferched sydd yn cael trafferth beichiogi, pan fo'r holl greadigaeth yn gwneud i hynny edrych yn hawdd. Mae'n gallu bod yn boen meddwl dirfawr, sy'n bresennol ddydd a nos. Er bod datblygiadau meddygol a gwyddonol wedi chwyldroi'r sefyllfa i rai yn y gwledydd cyfoethog, mater arall yw ceisio gwireddu dyhead o'r fath heb gyfoeth.

Cofiaf yn dda fod mewn cynhadledd, yn Jerwsalem o bob man, yng Ngwesty Hilton, yn gwrando darlith fythgofiadwy gan yr ymchwilydd meddygol Robert Edwards o Gaergrawnt a'r gynecolegydd ymgynghorol Patrick Steptoe, yn amlinellu eu campwaith yn dod â'r "babi tiwb profi" cyntaf, Louise Brown, i'r byd. Cynghrair Bydwragedd y Byd sy'n cael ei chynnal bob 4 blynedd oedd y digwyddiad a'r flwyddyn oedd 1978. Datblygiad diweddar iawn yn hanes y ddynoliaeth oedd yr hyn a ddisgrifiwyd, ond yn sicr roedd Louise wedi torri cwys go fawr. Ar yr un pryd, soniwyd am gost enfawr! Yn drawiadol, y siaradwr nesaf yn y gynhadledd oedd bydwraig o Sierra Leone a'n syfrdanodd gydag ystadegau am y plant oedd yn marw yno o ddiffyg dŵr glân a thlodi, a buasai canran fach o'r arian wedi gallu gwella'r sefyllfa yn y wlad honno.


Os trown i Lyfr Genesis yn y Beibl, fe welwn gymaint o wewyr yr oedd methu beichiogi yn ei achosi i wragedd yn y storïau sydd gennym yno. Mae'n adlewyrchu wrth gwrs pa mor bwysig oedd y gallu i feichiogi a geni plant iach – genedigaeth bechgyn fel arfer a gofnodir – gan fod yr olyniaeth Hebreaidd yn y fantol.

Ym Mhennod 30, cawn hanes cythryblus a hynod ddiddorol teulu Jacob a'u hymdrech i eni meibion. Yn y pen draw, wrth gwrs, ganwyd deuddeg mab i Jacob, o bedair dynes sef ei ddwy wraig Lea a Rachel a'u dwy forwyn. Mae'n debyg fod Rachel, oedd yn cael trafferth i feichiogi, wedi ymbil ar ei chwaer Lea am berlysiau neu gyffur y credid y byddent yn ei galluogi i feichiogi. *"Yn nyddiau'r cynhaeaf gwenith aeth Reuben allan a chael mandragorau yn y maes, a'u rhoi i Lea ei fam. Yna dywedodd Rachel wrth Lea, 'Rho imi rai o fandragorau dy fab.'" (Genesis 30:14)*. Tybed ai dyma'r cyffur ffrwythloni cyntaf a gofnodwyd mewn hanes?

Mae enw'r planhigyn hwn yn dod o'r iaith Roeg, mandragoras, ac mae'n perthyn i'r teulu *posophyllum paltatum*. Mae'n perthyn i'r cyffur gingsen. Planhigyn gwenwynig ydyw a gall achosi cyfogi yn ogystal â bod â phwerau narcotig, tawelyddol ac anesthetig. Beth bynnag, yn dilyn y digwyddiad hwn fe esgorodd Rachel ar Joseff, hoff fab ei dad. Cafodd Rachel un mab arall, Benjamin, a bu farw yn fuan wedi ei eni ef. Cefais y fraint o fynd at fedd Rachel pan oeddwn yn Israel. Mae ar y ffordd i Fethlehem yn union fel y dywed y Beibl ac yn cael ei warchod hyd heddiw gan y gwragedd lleol. Profiad teimladol iawn, rhyfeddol o feddwl ei bod yn byw tua 4000 o flynyddoedd yn ôl!

Caiff mandragorau eu galw'n afalau cariad. Mae'r blodeuyn ar ffurf cwpan ac o liw porffor dwfn, a'r ffrwyth yn felys a hyfryd, gydag arogl nodedig a phleserus. Mae Caniad Solomon hefyd yn sôn am eu rhinweddau nwydus a serchus.

Yn ein dyddiau ni mae rhyw ddatblygiad newydd yn y cyfryngau bron bob dydd wrth i wyddonwyr ddarganfod mwy a mwy ym maes genynnau, ac iaith a geirfa newydd bob tro. Buasai Rachel yn rhyfeddu!



©petervick167/123RF.COM

Bedd Rachel



# Wrth Fynd Heibio

### *gan William H. Owen*



Ym misoedd Chwefror a Mawrth mewn blwyddyn gyffredin mae canol ein prifddinas yn troi yn deml i'r byd rygbi. Y cysegr sancteiddiolaf yn yr achos hwn yw ein stadiwm genedlaethol sy'n mynd dan enw ei noddwr erbyn hyn, y Principality. Oherwydd yr aflwydd a rheolau Cymru bu amheuaeth fawr a fyddai'r selogion yn medru gweld tair o'r gemau chwe gwlad eleni o seddau cochion ein stadiwm ein hunain.

Pan oedd tîm Cymru yn chwarae ar y maes hwn yn yr hydref daeth un peth i'n sylw yn ychwanegol at y rygbi, a'i safon digon salw, os yw lleygwr pur yn cael caniatâd i yngan y fath eiriau. Yr yfed ymhlith rhan o'r dorf oedd hynny, a sbardunodd lif o gwynion ar ffurf llythyrau i'r wasg ac erthyglau gan ohebwyr.

Y gŵyn yn gyffredinol oedd eu bod wedi talu'n ddrud am docyn i gael eistedd i weld y gemau ond fod hynny wedi profi'n amhosibl. Oherwydd fod diodydd meddwol ar werth o fewn cyffiniau'r stadiwm roedd mynd a dod diddiwedd ar hyd y seddau, i'r bariau a'r toiledau. Wrth i rai o'r diotwyr godi ac eistedd nid oedd heddwch i weld beth oedd yn digwydd ar y cae, prif bwrpas yr ymweliad. Roeddynt yn mynd ymhellach drwy sôn am y peintiau oedd yn cael eu gollwng dros gefnogwyr, am stumogau gwan y cefnogwyr honedig ac am eu hiaith os oedd unrhyw un yn fodlon eu cystwyo.

Oherwydd yr anhrefn hwn mewn un rhan o'r eisteddle – mae rhan wedi ei neilltuo i rai sydd am fwynhau mewn awyrgylch dialcohol – anelwyd llawer o'r sylwadau at Undeb Rygbi Cymru sydd i fod i oruchwylio ymddygiad y cefnogwyr a faint o ddiod sy'n cael ei werthu. Gweld bai ar yr Undeb yr oedd amryw eu bod yn rhoi elw

# O'R LLAN

### *gan y Canon Idris Thomas*

## CAU

Pwnc sydd bob tro yn codi'r felan ac sy'n siŵr o ennyn ymateb go chwyrn yw cau addoldai. Dywedodd cyfaill a welais yn ddiweddar ar faes Caernarfon, eu bod bellach yn cau ar raddfa mor eang a chyflym nes ei fod fel diffodd goleuadau trydan. Yna anghofio am eu bodolaeth a'u gadael i ddirywio yn y gwynt a'r glaw! Dychryn wnes i o glywed y dybiaeth ganddo wedyn, pan gyhuddodd yr awdurdodau crefyddol o bob enwad, o fod yn gorfoleddu yn y broses cau. “Mae fel ras, wsti, i ddarganfod pa enwad sydd ar dop y tabl cau!” oedd ei sylw. O glywed y gair tabl, ceisiais droi y sgwrs i drafod pêl-droed ac yn benodol dîm Everton gan fod y ddau ohonom yn digwydd bod yn gefnogwyr y gleision! Ond ni ellir dianc rhag pwnc cau addoldai gan fod ei effaith yn fyw iawn yn ein cymunedau ac yn gallu creu tensiynau annymunol ar adegau.

Wrth sgubo dail yn ffrynt y tŷ siaradais ag unigolyn sy'n byw bellach ym Môn ac fe ddywedodd fod aelod o un addoldy sydd ar fin cau, wedi mynegi iddo yn blwmp ac yn blaen mai ei ddiffyg presenoldeb ef, a hynny ers tro byd fel aelod yn y cwrdd, fydd yn gyfrifol i rybudd Ar Werth ymddangos ar wal y capel unrhyw ddiwrnod.

Pan oeddwn mewn plwyf, er mawr dristwch a gofid bu'n rhaid cau un o'r eglwysi a hynny am resymau diffuant. Cafodd y broses yn lleol ei gwneud mewn modd democrataidd, sensitif, call a rhesymol a diolchaf hyd heddiw o waelod calon i'r aelodau am hyn. Cofiaf un o'r aelodau yn dweud wrthyf fod y cyfan fel profedigaeth a gwir oedd hynny. O wneud popeth ar lawr y plwyf fel petai, yn hytrach na thrwy'r awdurdodau roedd y broses, yn iaith y De, yn llai stresol. Wedi dweud hyn cawsom gymorth ac arweiniad amhrisiadwy i wneud y cyfan yn gywir a gofalus gan wraig ysgolheigaidd a deallus a oedd yn aelod o Fwrdd Adeiladau'r Esgobaeth ac roeddwn yn hynod ddyledus iddi.

Un stori drist na allaf ei hanghofio oedd galw i weld teulu ar fferm yn Llŷn yn dilyn profedigaeth. Ar eu tir yr oedd eglwys hynafol oedd wedi cau ac wedi ei phrynu gan bobl o bell. Un bore pan gododd teulu'r fferm ac edrych drwy'r ffenestr gwelsant olygfa anhygoel a hynod drist. Roedd dodrefn cysegredig yr addoldy wedi eu taflu yn bendramwnwgl i'r cae cyfagos ac roedd brain yn sefyll arnynt.

## CWM CORYN

Dau beth arall ar y mater cau, sef dau addoldy yn benodol. Roeddwn yn bresennol, fel offeiriad plwyf, yn y gwasanaeth olaf yng nghapel bach gwledig Cwm Coryn uwchben pentref Llanaelhaearn. Hoffaf ddisgrifiad Gruffudd Parry o'r lle yn y clasur *Crwydro Llŷn ac Eifionydd* –“yn arwain i bellafoedd y wlad ac i unigedd o ffermydd gwasgarog yng ngheseiliau'r mynyddoedd...dyma'r ffordd i Gwmcoryn a'i gapel bach, ac o'i dilyn ymlaen deuir i berfedd cefn gwlad”. Cofiaf y croeso a gawn wrth ymweld â rhai o'r ffermydd megis Maes y Cwm, Penllechog ac ati. Yn aml ar nos Suliau byddai Ann a minnau yn gadael y car ym mhentref Llanaelhaearn a cherdded



©mx9uk/123RF.COM

o'r ddiod feddwol uwchlaw mwyniant y rhai oedd yno i wylio'r gemau, ac wedi talu trwy'u trwynau i'r Undeb am y fraint honno.

Rhaid i mi gyfaddef na fûm erioed yn y stadiwm hon. Bûm yn yr hen un yn y ganrif o'r blaen ac nid oes gennyf gof fod y fath drythyllwch yn bod (diolch i Ellis Wynne am air sy'n gweddu i'r unfed ganrif ar hugain!). Am ryw reswm llaciwyd y rheolau fel bod yfed alcohol yn beth cymeradwy wrth wylio gemau rygbi. Prin y gwelwch neb, wrth i'r camerâu teledu fynd heibio, heb wydr neu botel yn ei law. Hyd y gwelaf mae'r awdurdodau pêl-droed yn gwrthod yfed ar y terasau am eu bod yn gwybod, am wn i, fod rhai o gefnogwyr y gêm honno ym medru bod yn ddigon gwyllt yn barod cyn cyrraedd yno.

Bu dadlau ar ôl gemau rygbi'r hydref a ddylid cau'r bariau yn y stadiwm yn ystod y chwarae. Onid oes tystiolaeth gref o blaid gwneud hynny pan fydd y rhai sy'n gwneud defnydd ohonynt yn ymddwyn yn anghymdeithasol?

I rai fel fi, a fagwyd yn yr oes lle'r oedd pregethu o'r pulpud yn erbyn y ddiod yn norm, mae'r ateb yn syml. Caewch nhw. Er mor amhoblogaidd yw dweud peth felly y ganrif hon.

*"Mae fel ras, wsti, i ddarganfod pa enwad sydd ar dop y tabl cau!"*

i Gwm Coryn a thangnefeddus oedd y daith bob tro.

Yn ôl y sôn aildaniwyd yr achos Methodistaidd yn ardal Llanaelhaearn tua'r flwyddyn 1807 pan ddaeth John Elias i bregethu yn ffermdy Pentre-bach. Yn ystod y blynyddoedd 1807-11 pregethwyd yn nifer o ffermdai'r ardal ac arweiniodd hynny at godi capel cyntaf Cwm Coryn yn 1811. Adeilad bychan ac amrwd tu hwnt oedd y capel cyntaf hwnnw. Ym marn finiog yr enwog bregethwr Robert Hughes o ffermdy Uwchlaw'r Ffynnon, Llanaelhaearn, roedd yn "debycach i fwth bugail i'w gysgodi rhag gwres ac ystorm yng nghanol ymherodraeth y geifr gwylltion nag i Deml i addoli y gwir a bywiol Dduw"! Cynyddodd yr Achos cynnar yng Nghwm Coryn ac ym 1831 torrodd diwygiad allan yn y capel cyn ymledu trwy'r fro. Ym 1871, drigain mlynedd ar ôl agor y capel cyntaf, codwyd addoldy newydd, helaethach ar y safle. Gwerin amaethyddol o ffermydd gwasgarog yr ucheldirau oedd yn mynychu'r moddion ar y Sul a bu'n gyrchfan i gyngherddau a chymanfaoedd canu hefyd er gwaethaf ei safle anghysbell.

Daeth yr Achos i ben oddeutu diwedd y 1980au a bellach mae'r capel yn dŷ. Braint i mi oedd cael pregethu yno droeon fel yn holl gapeli'r ardal a'r fro. Saif un digwyddiad yn fy meddwl o oedfa olaf capel Cwm Coryn, sef gweld y diweddar annwyl Barchedig Meirion Lloyd Davies, Pwllheli yn cario'r Beibl oedd yn y pulpud allan o'r addoldy – roedd hyn yn rhan o'r ddefod. Canodd y bardd gwlad lleol, Wil Parsal, lu o benillion i Gapel Cwm Coryn ac fe'u canwyd gan Ann a Dafydd, gefeilliaid yr Hafod. Dyma un ohonynt:-

"Bu plant yn rhodio llwybrau'r fro
I'w breswyl O i foli;
A hawddfyd ar addoldy'r Cwm,
Arddeliad ar addoli."

## CAPEL UCHAF

Pan gaeodd yr Achos (Hen Gorff) yng Nghapel Uchaf uwchben pentref Clynnog Fawr, penderfynodd y gynulleidfa oll ddod i addoli yn Eglwys Beuno Sant. Roedd hyn yn gam mawr iddynt ac yn sicr ni fyddai wedi bod yn hawdd, ond buont oll yn ffyddlon a gwerthfawrogol. Gyda llaw, wedi i'r capel gau, tynnwyd yr addoldy hwnnw i lawr yn llwyr. Cofiaf fynd yno dros y blynyddoedd, bob pnawn Sul cyntaf ym mis Gorffennaf i gynnal oedfa. Cofiaf fel ddoe yr oedfa gyntaf i mi yno a Mr Robert Lewis, fferm Coed Tyno gerllaw yn defnyddio'r trawfforch (pitch fork) i gychwyn yr oedfa. Un nodwedd ddiddorol arall oedd y garreg ateb oedd yn rhywle yn wal y fynwent – nid oes neb wedi ei darganfod. Nid oedd angen uchel seinydd yn y fynwent fach, gan fod y garreg ateb yn fil gwell!

Cof da am holl saint capeli Cwm Coryn a Chapel Uchaf – yn wir yr holl saint caredig ymhob capel yn y fro arbennig hon y bûm ynddi cyhyd. Ni wnaf eich anghofio. Mae pennill cyntaf y bardd Tecwyn Jones i Gapel Brynengan yn y llyfr *O Windy a Gweithdy'r Gân* yn addas i'r capeli hyn ac eraill:–

"Yng ngwyll y cynnull cynnar, yma bu
Grym bywyd y braenar;
Ond daeth gwae dyddiau claear
I lymhau hen erwau âr"



# TUDALEN Y PLANT




LLUN: FREE BIBLE IMAGES

Gofynnodd disgyblion cyntaf Iesu Grist iddo eu dysgu nhw i weddïo. Dywedodd yntau wrthyn nhw am ddweud

Dad, sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas;
dyro inni o ddydd i ddydd ein bara beunyddiol;
a maddau inni ein pechodau,
oherwydd yr ydym ninnau yn maddau i bob un sy'n troseddu yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf.
(Luc 11:1-4)

Dyma sut rydym ninnau sy'n dilyn Iesu Grist yn gweddïo.

## LLUN I'W LIWIO





## LLUN BETH SYDD YMA?